Adroddiad Ôl Ymgynghori

Rhyd-y-Penau Road – Cael Gwared ar y Culhau Blaenoriaeth

Rhif Project: CO18272

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 31 Gorffennaf 2019 a 21 Awst 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r tua 80 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 8 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 31 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 14 - Cefnogi'r cynnig
- 12 – Gwrthwynebu'r cynnig
- 5 – Wedi gwneud sylwadau ond heb nodi p'un a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig

Crynhoir y gofidiau a'r sylwadau isod gyda nifer o esiamplau o'r sylwadau penodol, ynghyd ag ymateb y Cyngor mewn italig.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y lloches ganolog bresennol ar Rhyd-y-Penau Road ac yn gosod croesfan sebra baralel i gerddwyr a beicwyr. Hefyd cyflwynir dau fwrdd arafu ar hyd Rhyd-y-Penau Road a Chyffordd Ddyrchafedig ar Gyffordd Berrymead Road / Rhyd-y-Penau Road.

Gweler isod y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn cefnogi'r cynnig:

"Ysgrifennaf i gefnogi'r mesurau arafu traffig a gynigir ar Rhyd-y-Pennau Rd."

"Mae'r cynigion yn gwbl briodol o ystyried y cofnod damweiniau ar gyfer yr ardal ac yn seiliedig ar fy mhrofiad personol fel preswylydd lleol.

Yn sicr mae problem gyda cherbydau'n gyrru'n gyflym ar hyd y darn hwn o Rhyd-y-Pennau Rd sy'n peri risg sylweddol o ystyried bod llawer o gerddwyr yn defnyddio'r ardal yn ystod y dydd"

"Er rwy'n gwerthfawrogi bod angen gwneud rhywbeth am gyflymder defnyddwyr y ffordd"

"Rwy'n croesawu holl rannau'r cynllun hwn"

"Ymateb i gynllun CO18272. Rwy'n croesawu'r cynllun hwn, yn enwedig gan fod gyrwyr yn manteisio ar y darn syth er mwyn gyrru'n gyflym, yn enwedig beiciau modur. Bydden i'n tybio ein bod yn gweld cyflymderau o 50 mya, a hyd yn oed 60 mya yno'n rheolaidd"

"Rwy'n cefnogi unrhyw gamau a gymerir i arafu cyflymder traffig ar y ffordd hon"

"Rwy'n cael anhawster yn dod i mewn ac allan o fy nreif oherwydd cyflymderau gwirion rhai modurwyr. Rwyf felly'n cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ond gydag ychydig o sylwadau"

"Bydd y groesfan sebra yn ddefnyddiol iawn i'r cyhoedd a dyma pam mai dim ond hyn y dylid ei weithredu. "

"Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'n gyffredinol y cynigion ar gyfer y mesurau rheoli traffig yn Rhydypenau Road. Rydym wedi gweld nifer o ddamweiniau dros y blynyddoedd ar y darn hwnnw o ffordd fel y nodir ar gyfer y mesurau rheoli traffig."

Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd <u>yn erbyn</u> y cynnig:

<u>Mater – Materion Draenio</u>

“Mae gan yr ardal hanes o lifogydd yn ystod y gwanwyn a’r hydref. Mae nifer o’r problemau yn cael eu hachosi gan weddillion coed yn cael eu golchi i lawr y bryn (hadau, dail a changhennau bach yn blocio’r draeniau yw’r prif broblemau). Rwyf wedi sylwi ar weddillion daear eleni hefyd oherwydd y gwaith i adnewyddu’r safle cronfa ddŵr mae’n debyg.

Ydych chi’n ystyried y llif dŵr i’r draeniau ar y gyffordd arafu gan y bydd yn cael ei chodi uwchben uchder cyffredinol y draeniau yn yr ardal? Gallai hyn achosi problemau ar ddiwrnodau o law trwm gan na fydd gan y dŵr unrhyw le i fynd iddo. Yna byddai’r gyffordd arafu fel arglawdd ac yn gwasgaru’r dŵr glaw i fyny’r afon. Byddai’r dŵr hwn yn dod at y tai ar ochr ddeheuol y ffordd.”

Bydd y “Cyffordd Ddyrchafedig” ar y darn hwn o’r ffordd yn gwaethygu’r broblem oni bai y gwneir gwelliannau sylweddol i’r system draenio ffordd. Allwch chi sicrhau y bydd hyn yn cael ei wneud?”

Nid yw’r diffyg gwaith cynnal a chadw o ran clirio’r gylïau’n rheolaidd yn helpu chwaith. Rwy’n poeni’n gyson am orfod mynd allan bob awr o’r dydd a’r nos i glirio’r blociadau i atal y dŵr rhag rhedeg i’r ardd ffrynt.”

“Ymddengys nad yw’r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth i addasu’r draeniau ffordd presennol. Dylai’r Cyngor gael gwybod bod pyllau mawr yn cael eu creu wrth y byrddau traffig ar hyd Rhyd y Penau Road. Mae’r llifogydd yn risg i ddefnyddwyr y ffordd ac i gerddwyr sy’n aml yn gorfod dod o hyd i lwybrau amgen i osgoi dŵr arwyneb dwfn yn ymestyn ar draws y palmant a’r ffordd.”

Fel rhan o’r Ymgynghoriad Mewnol Projectau Trafnidiaeth rydym yn ymgynghori â nifer o dimau mewnol gan gynnwys ein tîm “Rheoli'r Risg o Lifogydd a’r Arfordir", ni chodwyd unrhyw bryderon gan y tîm yn ystod yr ymgynghoriad mewnol cychwynnol.

Yn ystod y cam Dylunio Manwl cynhelir nifer o arolygon gan gynnwys Arolygon Topograffigol er mwyn i’r dylunydd allu asesu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i’r system ddraenio fel rhan o’r cynllun hwn. O ystyried y sylwadau a godwyd rydym yn trefnu i arolwg draenio CCTV llawn gael ei gynnal ledled yr ardal i asesu cyflwr y system ddraenio bresennol yn yr ardal ac ymchwilio a oes angen cyflwyno unrhyw fesurau draenio ychwanegol.

Cawsom wybod bod y brif broblem yn y lleoliad hwn yn ymwneud â gweddillion o’r coed yn teithio i lawr yr afon ac yn blocio’r draeniau presennol. Rydym wedi codi hyn gydag adran Parciau'r Cyngor i drefnu gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y coed ar hyd y llwybr hwn i geisio lleihau faint o weddillion sy'n blocio'r draeniau, ynghyd â’r timau Glanhau Strydoedd.

Mater - Bydd Mesurau Arafu Traffig yn cynyddu lefelau sŵn

“Mae’r sŵn rymblo cyson dros y byrddau arafu dan sylw yn mynd i fod yn niwsans mawr i’r rheiny sy’n ceisio cysgu, yn enwedig os oes gweithwyr shifftiau yn yr ardal.”

“Dylid hefyd nodi bod y mathau hyn o gerbydau yn cynyddu lefelau sŵn lleol wrth iddynt basio heibio ymylon y byrddau ffordd, a hynny’n gyflym a swnllyd. Felly byddai mwy o fyrddau yn cynyddu'r achosion hyn."

“Hyderaf na fydd unrhyw sŵn yn cael ei greu gan amharu ar breswylwyr lleol wrth i geir yrru dros y byrddau arafu hyn.”

“Bydd ceir yn brecio ac yn cyflymu yn ogystal â gwaelod cerbydau yn crafu ar hyd arwyneb y ffordd a lorïau mwy yn brecio wrth iddynt arafu cyn y byrddau. Bydd hyn yn achosi problem fawr o ran sŵn.”

“Mae cyflwyno mesurau arafu traffig yn arwain at sŵn cynyddol dros gyfnod o 24 awr, sy’n effeithio ar iechyd yn barhaol.”

Nid ydym yn cynnal arolygon sŵn cyn neu ar ôl gosod mesurau arafu traffig fel y rhain. Rydym yn dibynnu ar Ganllawiau’r Adran Drafnidiaeth megis Taflen Cynghori Traffig 6/96 a Nodyn Trafnidiaeth Lleol 1/07. Mae’r cyngor o’r dogfennau hyn fel a ganlyn:

"Conventional methods of measuring traffic noise do not readily expose annoyance factors associated with changes in the variability of noise. Consequently, it is difficult to predict accurately the perceived noise impact of traffic calming schemes (Abbot et al., 1995b)."

Felly nid ydym yn darllen lefelau sŵn wrth weithredu cynlluniau arafu traffig.

Rydym wedi dewis cyflwyno rampiau tarmac yn y lleoliad hwn yn hytrach na rampiau parod oherwydd bod rampiau tarmac yn llai llym na rampiau parod ac yn creu llai o sŵn a dirgrynu. Rampiau cyflymder yw’r unig ffordd sydd ar gael i ni ar hyn o bryd sy’n lleihau cyflymderau cerbydau’n effeithiol er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddwyr sy’n agored i niwed, er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai fod lefelau uwch o sŵn neu ddirgrynu i eiddo lleol pan fo cerbydau mwy yn teithio dros y twmpathau ffordd.

Mater – Bydd y Mesurau Arafu Traffig yn cynyddu llygredd

“Fel rhan o’r cynllun hwn byddai angen adeiladu nifer o fyrddau ffordd, er mwyn lleihau cyflymder traffig. Er y byddai hyn ynddo’i hun yn beth da, mae hefyd yn cael effaith ar yr amgylchedd gyda chynnydd o ran CO2, ocsid nitrus / nitrig ac allyriadau disel wrth i beiriannau symud ar gyflymder is ac wrth i'r gyrwyr orfod newid gêr wrth fynd dros y byrddau, yn enwedig yn achos loriau a cherbydau mwy”

“Mae fy mhrif wrthwynebiad i yn seiliedig ar lefelau uwch o lygredd lleol y bydd y cynllun hwn yn ei achosi. Mae mwyafrif y gyrwyr yn arafu wrth ddod at y mathau hyn o fyrddau arafu ac yna’n cyflymu wrth symud i ffwrdd. Mae arafu yn rhyddhau llygredd gronynnol o freciau'r cerbydau ac yna caiff mygdarthau ychwanegol o'r disbyddwyr eu creu wrth i'r gyrwyr gyflymu wedyn. Mae cerbydau sy’n teithio ar gyflymder cymedrol yn cynhyrchu llawer llai o lygredd. Mae hyn yn peri pryder i mi gan y bydd y llygredd cynyddol yn effeithio ar y plant sy’n mynychu Ysgol Gynradd Rhydypenau.”

“Bydd y mesurau hyn yn arwain at fwy o giwiau ar y llwybr hwn a bydd mwy o dagfeydd gyda pheiriannau'n rhedeg. O ystyried y dystiolaeth ddiweddar a chynnydd o ran pryderon dros

allyriadau a'r effaith ar gerddwyr ac, o ystyried nifer y plant sy'n cerdded ar hyd y llwybr hwn, dylid cynnal ymchwiliad trylwyr cyn i'r cynigion hyn gael eu datblygu."

Cydnabyddir mai allyriadau traffig ffordd (sylwedd gronynnol (SG) a nitrogen deuocsid cyntafol / eilaidd (NO2) yw'r prif ffactor cyfrannol o ran ansawdd aer gwael yng Nghaerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol iawn o'r pryderon o ran effeithiau ansawdd aer ac wedi ymrwymo i gyflawni lefelau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Er bod ymchwil wedi dangos y gall mesurau arafu traffig arwain at gynnydd lleol o ran rhai allyriadau cerbydau, mae mesurau o'r fath i'w gweld gan mwyaf mewn ardaloedd preswyl â llifoedd traffig isel. Mae unrhyw gynnydd o ran allyriadau o ganlyniad i osod mesurau arafu traffig yn debygol o fod yn isel ac yn annhebygol o achosi effaith sylweddol i'r lefelau ansawdd aer cyffredinol yn yr ardal, yn enwedig yn y lleoliadau hynny a ystyrir yn sensitif iawn (eiddo preswyl). Nodwyd bod y lefel o allyriadau yn gostwng â phellter cynyddol o ochr y cwrbyn ac felly bydd unrhyw gynnydd yn yr ardal yn cael ei leihau gan mwyaf wrth unrhyw eiddo preswyl gerllaw.

Mae angen i'r Cyngor gydbwyso'r manteision a geir o fesurau arafu traffig, o ran arbed bywydau a lleihau anafiadau, ag unrhyw gynnydd bach mewn allyriadau a all ddigwydd. Er mwyn gwella ansawdd aer, yn ogystal â chyfrannu at welliannau iechyd yng Nghaerdydd, mae defnydd cynyddol a dulliau teithio cynaliadwy ac actif yn hanfodol. Mae mesurau arafu traffig yn ffordd effeithiol o annog a hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol a diogel amgen, gwella diogelwch ar y ffyrdd a gwella ansawdd aer yn y pen draw drwy leihau nifer y teithiau cerbydau.

Mater – Bydd y mesurau hyn yn arwain at fwy o dagfeydd / traffig yn yr ardal.

"Nid wyf yn credu y bydd unrhyw un o'r cynigion hyn yn fuddiol i helpu unrhyw draffig. Yn hytrach bydd yn cynyddu'r traffig a'r tagfeydd.

Bydd y gyffordd ddyrchafedig yn cael gwared â nifer o lefydd parcio sy'n hanfodol i'r gymdogaeth a rhieni sydd â phlant yn mynychu ysgol gynradd Rhyd-y-penau. Drwy gael gwared ar y mannau parcio hyn byddwch yn cynyddu'r traffig ar y ffordd hon gan y bydd rhieni'n gyrru'n barhaus hyd nes eu bod wedi dod o hyd i fan parcio addas."

"Fel y gwyddoch, mae traffig yn yr ardal hon eisoes yn symud yn hynod araf yn ystod amseroedd ysgol. Bydd eich cynigion yn gwaethygu'r sefyllfa a bydd nifer o yrwyr yn ceisio llwybrau amgen trwy fwy o ardaloedd preswyl"

"Rhaid hefyd ystyried y datblygiad tai sydd wrthi'n cael ei adeiladu yn Plas Ty Draw. Bydd y traffig ychwanegol a chynyddol a fydd yn dod o'r lleoliad hwn yn y dyfodol ond yn gwneud Rhydypenau Road yn brysurach ac felly'n gwaethygu'r materion a godwyd uchod."

Ni fydd unrhyw lefydd parcio'n cael eu colli drwy gyflwyno'r Byrddau Arafu a'r Gyffordd Ddyrchafedig a gynigir fel rhan o'r cynllun hwn. Nid oes unrhyw gyfyngiadau parcio yn gysylltiedig â'r mesurau hyn a fyddai'n atal cerbydau rhag parcio yn y lleoliadau hyn.

Mae lleoliad y Groesfan Sebra arfaethedig a'r Marciau Ffordd Igam Ogam cysylltiedig mewn lleoliad lle nad yw cerbydau'n parcio ar hyn o bryd. Tra bydd ambell i le parcio yn cael ei golli ar ochr ogleddol y ffordd i ochr orllewinol y mynediad i'r Parc mae'r llefydd parcio yma yn cael eu cyfyngu er mwyn sicrhau bod gyrwyr sy'n dod at y lleoliad hwn yn gallu gweld yn

well. Felly dim ond ychydig o lefydd parcio fydd yn cael eu colli ac ni fydd yn cael effaith sylweddol ar nifer y cerbydau fydd yn cael eu dadleoli.

O ystyried y traffig cynyddol ar adegau ysgol, mae swyddogion y Cyngor yn gweithio i ddatblygu rhaglen ymgysylltu ag ysgolion ledled Caerdydd i gefnogi datblygu Cynlluniau Teithio Llesol. Bydd cynllun o'r fath yn cynnig dull i ysgolion, a gefnogir gan y Cyngor, i ymdrin â materion yn ymwneud â sut mae eu staff a disgyblion yn teithio i'r ysgol, gyda'r pwyslais ar annog cerdded, sgwtio a beicio. Byddai cynllun o'r fath yn dangos ymrwymiad ysgol i hyrwyddo teithio llesol trwy bolisïau penodol a gweithgareddau addysgol yn ogystal â nodi gwelliannau seilwaith i'r dyfodol y tu allan i gatiau'r ysgol i wneud cerdded a beicio'n haws. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi ysgolion i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Teithio Llesol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda nifer bach o ysgolion i dreialu gweithgareddau penodol gyda'r bwriad o ddatblygu dull y gellir ei gyflwyno'n ehangach. Caiff y gwaith peilot hwn ei wneud dros y 6 mis nesaf. Ar ddiwedd y cyfnod hwn byddwn mewn sefyllfa i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion eraill a byddwn yn cysylltu ag Ysgol Gynradd Rhydypenau ac Ysgol Uwchradd Caerdydd i weld a oes ganddynt ddiddordeb mewn datblygu Cynllun Teithio Llesol yn dilyn y gwaith peilot.

Mater – Nid oes angen unrhyw Fesurau Arafu Traffig newydd ar hyd Rhyd-y-Penau Road

"Byddwn yn cwestiynu'r angen am fwy o ddodrefn ffordd. Mae digon o fesurau ar Rhyd y Penau gyda'r ynys a'r camera cyflymder"

"Nid oes angen croesfan newydd ar blant cynradd Rhyd-y-Penau. Maen nhw'n cerdded i lawr bob ochr o'r ffordd i'r ysgol ac os oes angen yn defnyddio'r groesfan wrth yr ysgol."

"Gan fod gennym eisoes fesurau effeithiol ar waith ger yr ysgol gynradd (y camera cyflymder, y groesfan cerddwyr â thwmpathau ffordd arafu traffig) ni allaf weld bod angen gwario ar waith ffordd pellach."

"Nid oes angen y cynllun arfaethedig. Ar hyn o bryd, mae croesfan cerddwyr ddyrchafedig y tu allan i'r ysgol, ynys cerddwyr i'r dwyrain o Berrymead Road, a chamera cyflymder yr heddlu sydd ond newydd gael ei ddisodli am fath newydd, a thro yn y ffordd. Mae'r groesfan cerddwyr ddyrchafedig y tu allan i'r ysgol yn cael ei rheoli gan 'ddyn lolipop' sy'n helpu i reoleiddio llif pobl a cheir ar adegau prysur."

Rydym wedi gweld nifer o ddamweiniau difrifol ar hyd y rhan hon o Rhyd-y-Penau Road, a nifer ohonynt yn cynnwys gwrthdrawiad rhwng cerbyd a beiciwr. Bydd gosod croesfan a reolir newydd i gerddwyr a beicwyr a chyflymderau cerbydau llai yn creu amgylchedd diogelach a mwy deniadol i gerddwyr a beicwyr ac felly'n annog mwy o bobl i deithio i'r ysgol ar droed neu ar feic.

Mater – Diogelwch Croesfan Sebra

"Rwy'n gwrthwynebu'n gryf fesur y Cyngor i gael gwared ar ynysoedd traffig. Maen nhw'n ddiogel iawn ac yn ffordd gyflymach i gerddwyr groesi'r ffyrdd.

Mewn cyferbyniad, rwyf wedi cwyno sawl gwaith i'r cyngor ac wrth wleidyddion etholedig am ddiogelwch ar groesfannau sebra, heb unrhyw effaith.

Mae unrhyw un sy'n eu defnyddio yn gwybod bod gyrwyr yn aml yn eu hanwybyddu; rwyf bron â chael fy nharo sawl gwaith.

Maen nhw ond yn ddiogel pan maen nhw'n cael eu cyfuno ag ynysoedd neu dwmpathau. Nid oes yr un o'r ddau yn y cynnig hwn, ac mae'r cynnig yn ceisio cael gwared ar un ynys sydd gennym.

Bydd y cynnig hwn yn golygu y bydd croesi'r ffordd yn fwy peryglus i gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan."

"Mae gyrru wedi dod yn llawer gwaeth dros y blynyddoedd a 'dyw nifer o bobl ddim hyd yn oed yn eich GWELD chi'n aros wrth y groesfan / neu'n croesi a dwi ddim yn meddwl bod unrhyw un wedi darllen a deall Rheolau'r Ffordd Fawr!"

Yn y gorffennol mae Ynysoedd Cerddwyr wedi cael eu cyflwyno mewn lleoliadau lle roedd galw i gerddwyr groesi'r ffordd. Roedd y rhain yn fesurau cost isel o gymharu â chyflwyno Croesfan Sebra. Fodd bynnag mewn lleoliadau lle mae galw i gerddwyr groesi a bod digon o gyllid ar gael rydym yn ceisio disodli'r mesurau hyn â chyfleusterau croesi ffurfiol megis croesfannau sebra.

Ni fyddai'r ynys cerddwyr bresennol yn y lleoliad hwn yn ddigon llydan ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn / cadair wthio i aros yn lleoliad hwn pe byddent yn croesi'r ffordd. Byddai cyflwyno Croesfan Sebra yn y lleoliad hwn hefyd yn cynnwys cyflwyno Goleufâu, Arwyddion Rhybudd Pellach a Marciau Ffordd sy'n codi ymwybyddiaeth y gallai fod cerddwyr yn croesi wrth y lleoliad hwn.

O ran gyrwyr ddim yn stopio wrth y Groesfan Sebra, fel gyda phob croesfan cerddwyr, dylai cerddwyr wastad wneud yn siŵr bod y traffig wedi stopio cyn dechrau croesi (rheol 18 Rheolau'r Ffordd Fawr), ac wrth groesfannau sebra "rhoi digon o amser i draffig eich gweld chi a stopio cyn i chi ddechrau croesi." (Rheol 19 Rheolau'r Ffordd Fawr).

Mater – Cofnodion Gwrthdrawiadau – nid ydym wedi derbyn unrhyw fanylion o wrthdrawiadau i gefnogi'r cynllun hwn

"Nid wyf erioed wedi clywed am ddamwain wrth yr ynys draffig o'r safle bws at gatiau'r parc ac rwy'n croesi yno gyda fy nghi ddwywaith y dydd."

"I ddechrau, cefais fy synnu gan faint o ddamweiniau traffig sydd wedi digwydd ar y darn hwn o ffordd. Lle mae'r wybodaeth hon wedi'i chofnodi? Rwy'n byw rownd y gornel yn Bettws-y-Coed Road felly mae gennyf ddiddordeb o ran fy niogelwch."

"Hefyd ydych chi wedi ystyried mai'r rheswm dros y damweiniau yw bod y ceir sy'n parcio'n rhy agos at y gyffordd ar Dan y Coed Road a Rhydypenau Road yn amharu ar geir sy'n troi i mewn i Dan y Coed Road?"

“Ar ddiogelwch mae eich cynnig yn nodi "At ei gilydd, mae nifer o wrthdrawiadau sy’n arwain at anafiadau ymhlith cerddwyr, beicwyr a gyrwyr”. Mae hyn yn amwys iawn a dylech gynnig ystadegau gwirioneddol i gefnogi eich cynlluniau.”

Mae swyddogion yn cynnal dadansoddiad blynyddol o'r holl wrthdrawiadau leded y ddinas sy’n cynnig asesiad gwrthrychol o wrthdrawiadau a safleoedd lle maen nhw’n digwydd o ran eu hamlder, difrifoldeb ac achos tebygol ac yn sgorio pob safle at y diben o flaenoriaethau safleoedd ar gyfer cynigion cyllido.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod meini prawf y mae’n rhaid i ni ddangos bod ein cynllun arfaethedig yn eu bodloni. Mae cyllid Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar nodi clystyrau o wrthdrawiadau o amgylch y ddinas a datblygu cynllun â’r nod o leihau'r gwrthdrawiadau hyn mewn lleoliad penodol. Ar yr adeg y cyflwynwyd cynnig Llywodraeth Cymru y data diweddaraf o ran gwrthdrawiadau oedd ar gael i ni oedd rhwng 2013 a 2017 gan gynnwys y blynyddoedd hynny a oedd yn nodi bod pum gwrthdrawiad wedi digwydd ar hyd yr adran hon o Rhyd-y-Penau Road. Roedd tri o’r rhain yn wrthdrawiadau “difrifol” a dau yn “fân” wrthdrawiadau, roedd dau o’r rhain hefyd yn wrthdrawiadau rhwng cerbyd a beiciwr. Gan fod clwstwr o wrthdrawiadau, a thri ohonynt yn ddifrifol, roedd cyfiawnhad dros nodi’r ardal hon fel lleoliad a oedd angen ei hymchwilio.

Mater – Mae’r Cynllun yn wastraff arian a dylai arian trethdalwyr gael ei ddefnyddio mewn mannau eraill.

“Mae’r ymgynghoriad hwn yn edrych fel gordd i dorri cneuen. Os oes gennych unrhyw arian i’w wario byddai’n well ei wario ar atgyweiriadau i’r palmentydd sydd mewn cyflwr ofnadwy ac i ailarwynebu’r ffordd sy’n datblygu ceudyllau gwael o bryd i’w gilydd.”

“Nid wyf yn credu bod hyn yn ffordd dda o wario’r arian. Mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol wir angen mwy o gyllid, meddyliwch faint fydd y mesur arafu traffig hwn yn ei gostio. Mae’n hawdd dweud bod hyn yn cael ei dalu trwy dri maes cyllido ond mae’r cwbl yn dod o arian cyhoeddus.”

“Rydyn ni'n gwybod bod Cyngor Caerdydd yn gweithredu dan bwysau ariannol, ac mae'n rhaid i ni ymddiried ynoch chi bod ein £245 bob mis yn cael ei ddefnyddio’n dda. Rydyn ni efallai wedi meddwl, a hynny’n anghywir, bod yr adran Priffyrdd wedi cael swm o arian ac yn gorfod ei wario neu bydd yn ei golli’r flwyddyn ddilynol.”

Caiff y cynllun hwn ei ariannu gan “Lywodraeth Cymru: Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd”, cafodd yr arian hwn ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru ar ôl i ni ddatblygu’r cynllun hwn a bodlonodd y cynllun ei meini prawf o ran gwella diogelwch ar y ffyrdd. Gan fod yr arian hwn wedi cael ei ddyrannu er mwyn cyflawni’r project hwn, ni ellir ail-ddyrannu’r arian tuag at faterion eraill megis cynnal a chadw’r Brifffordd.

Mater – Graddiant Bwrdd Arafu

“Mae yna groesfan i gerddwyr ger pen gorllewinol Rhydypenau Road (wrth y gylchfan) sydd, yn fy marn i, wedi’i osod yn wael iawn. Mae’r graddiant bob ochr i’r groesfan mor serth nid wyf yn credu ei bod yn diwallu’r rheoliadau, ac mae’n rhaid i gerbydau arafu gymaint nes eu bod yn cropian bron a bod i yrru trwyddi. Pe bai’r graddiannau’n debyg i’r rheiny wrth y groesfan ger yr Ysgol Gynradd ar Rhydypenau Road byddai hynny’n iawn ac yn effeithiol.”

“Mae’r twmpathau arafu wrth i chi droi i Rhydypenau Road o groesffyrdd Rhydypenau yn rhy uchel ac mae nifer o yrwyr yn llwyddo i grafu gwaelod eu ceir felly plîs peidiwch â gwneud y byrddau newydd mor uchel (ac os gallwch leihau uchder y twmpath presennol byddai hynny’n wych!)”

“Rwyf wedi darllen eich cynllun arfaethedig ar gyfer y twmpathau cyflymder ychwanegol ar Rhydypenau Rd. Fy sylwadau yw PLÎS sicrhewch nad yw uchder y rhain fel y twmpathau cyflymder ger cylchfan Rhydypenau, sydd fel ceisio mynd dros gwrbyn. Gallai'r twmpathau hyn fod o uchder sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau ond dylech fod wedi sicrhau bod modd cael atynt mewn ffordd esmwythach."

Gallwn gadarnhau bod y byrddau arafu sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cynllun hwn yn cael eu cyflwyno ar raddiant o 1:14 sy’n unol â'n safonau dylunio cyfredol ar Lwybr Bws. Pan fo’r byrddau arafu wedi’u hadeiladu byddwn yn cyflawni “arolygon gwastadedd” i gadarnhau bod y byrddau arafu wedi’u hadeiladu i’r fanyleb dylunio. Pe bai unrhyw broblemau yn cael eu nodi yn dilyn yr arolygon gwastadedd hyn dylai'r contractwr unioni hwn i sicrhau bod y bwrdd arafu yn ateb y fanyleb dylunio.

Mater – Bydd Ail-leoli'r Safle Bws yn creu problemau gweledegdd ychwanegol.

“Ar hyn o bryd yn ystod oriau brig a phan fo’r ysgol ar agor, mae’r ardal o Dan-Y-Coed Rd a Berrymead Rd yn brysur iawn ac ar dro sy’n lleihau gweledegdd i gerbydau a cherddwyr.

Fodd bynnag mae angen uwchraddio’r groesfan, fodd bynnag, rwy’n bryderus y bydd symud y safle bws a defnyddio rhwystr ymwthiol yn achosi problemau gweledegdd pan fo'r bws yn stopio.

Dylai’r safle bws gael ei leoli ymhellach yn ôl ar Rhydypenau Rd, efallai rhwng y ddau fwrdd arafu arfaethedig newydd. Byddai hyn yn bendant yn gwella gweledegdd gan ei fod yn bellach o'r tro wrth Dan-y-Coed Rd.”

“Bydden ni’n awgrymu un o 2 ddewis amgen i’r cynnig cyfredol ar gyfer adleoli’r lloches bws:

a) adleoli’r safle bws heb y lloches; gan osgoi unrhyw effaith ar weledegdd; neu

b) adael y lloches bws lle mae e ar hyn o bryd ac adleoli’r groesfan i gerddwyr / beicwyr yn lle

Rydyn ni’n hyderus y byddwch yn gwneud y newidiadau priodol i osgoi creu perygl newydd”

“Mae lleoliad y safle bws a'r groesfan Sebra yn peri risg sylweddol i gerddwyr a beicwyr sy’n defnyddio'r groesfan pan fo'r bws wedi stopio. Ymddengys yn y sefyllfa hon fod gweledegdd o ran y groesfan i yrwyr o’r gorllewin yn cael ei leihau’n sylweddol, gydag unrhyw un yn croesi o’r de i’r gogledd o bosibl yn symud o du ôl i fws sydd wedi stopio.

Hefyd bydd risg o ran cerbydau yn teithio o'r dwyrain yn ceisio goddiweddyd bws wedi stopio yn y safle bws, er bod gwneud hyn ar groesfan sebra yn anghyfreithiol. Ar adegau prysur, pan fo cerbydau'n ciwio ar gyfer y groesfan wrth yr ysgol neu hyd yn oed ar gyfer y gylchfan ymhellach i'r gorllewin, bydd y cerbydau hyn yn cael eu rhwystro ac yn achosi rhwystr sylweddol."

Bydd marciau ffordd igam-ogam sy'n gysylltiedig â'r groesfan sebra a fydd yn sicrhau bod y Safle Bws yn cael ei leoli tua 10 metr i ffwrdd o leoliad y groesfan. Mae nifer o leoliadau o amgylch y ddinas lle mae Safleoedd Bws wedi'u lleoli'n agos at groesfannau sebra.

Yn ystod y cam dylunio cychwynnol nodwyd er mwyn cyflwyno croesfan sebra yn y lleoliad hwn roedd gofyniad i adleoli'r Safle Bws a'r Lloches Bws presennol yn y lleoliad hwn. Fe wnaethom gydgysylltu â'r Tîm Trafnidiaeth Cyhoeddus ynghylch adleoli'r safle bws heb gyflwyno lloches bws a chawsom wybod bod llochesi bws yn cael eu cyflwyno er mwyn cynnig diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau bws yn ystod tywydd gwael. Mae hyn yn unol â nodau'r Cyngor i sicrhau Newid Moddol sy'n edrych ar leihau nifer y defnyddwyr car dibynnol a newid hynny am gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Er y cytunir pan fo bws wedi'i barcio yn y Safle Bws y gallai hyn rwystro gweledegd i ryw raddau yn y lleoliad hwn mae mesurau digonol i reoli cyflymderau cerbydau ar y ffyrdd dynesu i'r groesfan sebra. Mae'r gwasanaeth bws yn y lleoliad hwn yn anaml (1 bws fesul awr a hanner) a bydd ond yn stopio am gyfnod byr i deithwyr ddod ar y bws neu adael y bws, felly maen annhebygol y bydd bysus wedi'u parcio yn y lleoliad hwn am gyfnodau hir o'r dydd.

O ran yr awgrym i adleoli'r safle bws ymhellach ar hyd Rhyd-y-Penau Road rhwng y ddau fwrdd arafu, gallwn roi gwybod bod safleoedd bws eisoes yn bodoli ar Rhyd-y-Penau Road i'r dwyrain o Dan-y-Coed Road ac nid ydym eisiau adleoli'r Safle Bws hwn gan y byddai'n rhy agos i'r safle bws presennol.

Mater – Gallai cyflymder arwain at oedi o ran amser ymateb ar gyfer y Gwasanaethau Brys

"Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn atal y gwasanaethau brys rhag dod i mewn a gadael Berrymead yn ystod cyfnodau helaeth o'r diwrnod."

Fel rhan o'n Hymgynghoriad Trafnidiaeth rydym yn ymgynghori â nifer o asiantaethau allanol gan gynnwys y gwasanaethau brys. Mae'r Heddlu wedi ymateb i'n hymgynghoriad gan nodi eu bod yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn.

Mater – Gall nodweddion Arafu Traffig achosi anghysur i bobl â iechyd gwael neu anafiadau

"Mae Rhydypenau Road ar lwybr uniongyrchol i'r Ysbyty Prifysgol a gorsafoedd heddlu ac o ganlyniad mae cerbydau brys yn pasio ar hyd y llwybr hwn yn aml. Ni fydd byrddau ffordd ychwanegol yn helpu â chyflymder y gwasanaethau hyn a gallai ei wneud yn fwy anghyffyrddus i'r preswylwyr."

"Mae'r platfformau / rhwystrau yn broblem i unrhyw un â phroblemau iechyd, yn enwedig problemau sbinol, ac mae eich cynigion yn cynyddu amlder y 'rhwystrau' hyn dros bellter byr."

Caiff y nodweddion sy'n cael eu cyflwyno'n rhan o'r cynllun hwn, megis y "Byrddau Arafu" a

“Chroesfannau Dyrchafedig” eu cyflwyno yn unol â chanllawiau a safonau dylunio presennol sy’n pennu’r graddiannau a’r onglau; dylid cyflwyno’r nodweddion hyn ar y brifford. Cyhyd â bod cerbydau’n arafu’n ddigonol wrth deithio dros y nodweddion hyn, ni fydd unrhyw effaith andwyol ar yrwyr / teithwyr wrth deithio drostynt.

Rydym wedi dewis cyflwyno rampiau tarmac yn y lleoliad hwn yn hytrach na rampiau parod oherwydd bod rampiau tarmac yn llai llym na rampiau parod ac yn creu llai o sŵn a dirgrynu. Rampiau cyflymder yw’r unig ddull sydd ar gael i ni ar hyn o bryd i leihau cyflymderau’n effeithiol er mwyn gwella diogelwch ffyrdd i ddefnyddwyr agored i niwed.

Mater – Beicwyr o bosibl yn beicio’n syth o’r parc i’r groesfan

“Yn olaf, gan eich bod yn bwriadu creu llwybr beicio trwy’r ddau barc yn y dyfodol fyddwch chi'n gosod rhwystrau wrth fynedfeydd y parc i ddiogelu cerddwyr sy’n cerdded ar hyd Rhyd-y-Penau Road rhag beiciau sy’n teithio ar gyflymder o'r parc?"

Bydd y Groesfan Sebra Baralel arfaethedig yn cael ei chyflwyno ychydig i ffwrdd o’r llinell ddymunol i gerddwyr neu feicwyr sy’n croesi yn y lleoliad hwn, bydd rhaid i feicwyr sy’n gadael o’r parc arafu wrth ddod at y groesfan.

Mater - Bydd y Cynllun yn cael effaith negyddol ar feicwyr

“Honnir y bydd y cynnig yn creu "amgylchedd diogelach a mwy deniadol i gerddwyr a beicwyr" Fel beiciwr fy hun, a oedd yn teithio'n rheolaidd i'r gwaith ar feic cyn ymddeol, rwy'n anghytuno.

Rwy’n credu bod byrddau arafu'n niwsans gan eu bod fel arfer yn anghyffyrddus i fynd drostynt ac rwy’n colli cyflymder a momentwm wrth ddod atynt. Nid ydynt yn gwneud i mi deimlo’n ddiogel ar fy meic ac nid ydynt yn fy annog i feicio. Rwy’n amau bod beicwyr eraill yn teimlo’r un fath.”

Fel rhan o’n Hymgynghoriad Trafnidiaeth fe wnaethom ymgynghori â nifer o asiantaethau allanol gan gynnwys Grwpiau Beicio a hefyd ein Tîm Beicio mewnol ac ni chodwyd unrhyw bryderon fel rhan o'r broses ymgynghori hon. Mae cyflwyno nodweddion arafu traffig yn sicrhau bod rhaid i’r holl ddefnyddwyr ffordd leihau eu cyflymder ac felly mae hyn yn gwella diogelwch ar y ffordd yn gyffredinol i bob defnyddiwr.

Gweler isod y sylwadau ychwanegol a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori:

Mater – Cais am Orchmynion Rheoleiddio Traffig

“Rydyn ni'n aml yn gweld traffig ym mhobman pan fo'r ysgol yn dechrau ac yn gorffen oherwydd bod rhieni'n parcio heb roi unrhyw ystyriaeth i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Felly bydden i’n awgrymu y dylid cyflwyno llinellau melyn dwbl o’r groesfan newydd hyd heibio’r ysgol.”

“Hefyd, mae problem â gweledegdd wrth ddod allan o Berrymead Rd gan fod cerbydau’n aml yn parcio ar gorneli’r gyffordd. Fydd y gyffordd ddyrchafedig yn atal parcio

a fydd y llinellau melyn dwbl yn cael eu cyflwyno i atal cerbydau rhag parcio wrth y gyffordd?”

“Felly, a ydych yn bwriadu rhoi llinellau melyn dwbl bob ochr i Dan-y-Coed lle mae’n cwrdd â Rhyd-y-Penau neu fel arall gallai arwain at ddamweiniau a pherygl i gerddwyr?”

“Nid ydych wedi crybwyll unrhyw gyfyngiadau parcio y byddech chi’n eu cynnwys yn eich cynigion neu beidio.”

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i Orchmynion Rheoleiddio Traffig fel rhan o'r cynllun hwn, dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoleiddio Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i ymchwilio, gellir cysylltu â’r tîm drwy’r manylion isod: Tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW gwasanaethaucymdogaeth-cymorthbusnes@caerdydd.gov.uk.

Mater – Cylchfan Rhyd-y-Penau Road – Mae’r cynllun wedi creu cylchfan mwy peryglus

“Rwy’n credu bod mwy o ddamweiniau wedi digwydd wrth y gylchfan ar ôl y newidiadau nag o’r blaen. Mae’n rhaid i gerbydau mawr sy’n troi i'r chwith o Fidlas Road i mewn i Rhydypenau Road ddefnyddio'r lôn am i lawr allanol er mwyn gallu gwneud y tro. Mae hyn hefyd yn ychwanegu at y tagfeydd a rhwystredigaethau gyrwyr a cherddwyr.”

“Nid oes gan y Cyngor unrhyw wybodaeth i ddangos bod y mesurau arafu traffig wedi lleihau damweiniau."

Mae Cylchfan Rhyd-y-Penau Road / Fidlas Road y tu allan i’r cynllun hwn ac nid yw’n rhan o’r ymgynghoriad hwn. Os oes gan breswylwyr unrhyw bryderon diogelwch ar y ffyrdd eraill gellir e-bostio’r rhain at: TransportProjects@Caerdydd.gov.uk neu eu hanfon at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ar gyfer ymchwiliad.

Mater – Lleoliad Nodweddion Arafu Traffig – Pam na godwch y Groesfan Sebra arfaethedig

"Mae'r dogfennau cysylltiedig yn nodi bod 'nifer o wrthdrawiadau sydd wedi arwain at anafiadau' wedi digwydd gyda cherddwyr, beicwyr a modurwyr wrth gyffordd Rhydypenau Road a Danycoed Road ond bydd y platfform dyrchafedig arfaethedig yn cael ei adeiladu wrth gyffordd Berrymead Road, sydd ymhellach i ffwrdd"

"Nodir bod damweiniau wedi digwydd wrth y gyffordd rhwng Rhyd y Penau Road a Dan y Coed Road. Byddai hyn yn awgrymu'r angen am gyffordd ddyrchafedig wrth y gyffordd honno ac nid wrth yr un sy'n arwain at Berrymead Road. Ymddengys nad yw'r Cyngor yn siŵr ble i adeiladu'r gyffordd ddyrchafedig."

Bydden ni fel arfer yn codi'r groesfan sebra, ond, mae strwythur pont sy'n rhedeg dros y nant ac nid ydym yn cael adeiladu bwrdd arafu o fewn 25m i strwythur. Felly bydd cyflwyno bwrdd arafu i'r dwyrain o'r gyffordd â Dan-y-Coed Road a chodi cyffordd Berrymead Road yn sicrhau bod cerbydau'n arafu wrth iddynt agosáu at y groesfan sebra o'r ddau gyfeiriad.

Mater – Dylid ystyried adleoli'r Camera Cyflymder presennol yn y lleoliad hwn

"Ydych chi'n cadw'r camera cyflymder? Byddai hyn yn ormodol â'r holl fyrddau arafu".

"Wrth y gyffordd â Rhydypenau Road a Danycoed Road mae yna gamera cyflymder sy'n edrych fel ei fod wedi cael ei uwchraddio'n ddiweddar. Caiff modurwyr sy'n teithio tua'r gorllewin i lawr y rhiw ar Rhydypenau Road eu rhybuddio am hyn, felly dylai hynny eu hatal rhag gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad rheoleiddiol o 30mya."

"Neu byddai symud y camera cyflymder ymhellach i fyny Rhydypenau Road yn sicrhau y byddai ceir yn arafu cyn y gyffordd."

"Dylai'r camera digidol drud a osodwyd gan y cyngor yn ddiweddar fod yn ddigon i atal gyrwyr ac felly nid oes angen y nifer arfaethedig o fesurau arafu traffig."

"Os bydd y mesurau a gynigir yn cael eu rhoi ar waith bydd y camera cyflymder sefydlog wrth y gyffordd â Dan y Coed Road yn ddiangen oherwydd bydd bron yn amhosibl mynd dros y cyfyngiad pan fydd y mesurau newydd ar waith. Felly byddai'n ddefnyddiol pe gellid symud camera cyflymder sefydlog i ben uchaf y ffordd neu ystyried mesurau eraill a fyddai'n rheoli'r cyflymder ar y darn hwn o'r ffordd yn well."

Yn sgil gweithredu'r cynllun hwn, bydd arolygon ar ôl y cynllun yn cael eu cynnal yn y lleoliad hwn i asesu cyflymder cerbydau ar hyd y llwybr hwn. Os bydd y cyflymderau ar hyd y llwybr hwn wedi gostwng byddwn yn cydgysylltu â GoSafe er mwyn iddynt allu penderfynu os oes dal angen i'r Camera Cyflymder hwn aros yn y lleoliad hwn. Caiff y Camerâu Cyflymder eu gweithredu gan Bartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru a elwir GoSafe. Mae'n rhaid i'r camerâu hyn fod yn unol â meini prawf y safle a osodir gan Lywodraeth Cymru, ceir rhagor o wybodaeth am leoliadau camerâu yn www.GoSafe.org.uk *.*

Mater – Mae angen Nodweddion Arafu Traffig ychwanegol ym mhen gogleddol Rhyd-y-Penau Road

“Er y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn gwella diogelwch ar y ffyrdd a’r amgylchedd ar hyd Rhydypenau Road, yw hi'n bosibl ychwanegu bwrdd arafu arall rhwng cyffyrdd Dan-yr-Heol a Heol Esgyn?”

“Rwy’n byw ar ben uchaf y ffordd ac mae angen mesurau arafu arnom ni hefyd. Mae’n amlwg bod gyrwyr yn gyrru ar gyflymder o hyd at 70mya ar ôl pasio cyffordd Berrymead.”

“Y prif fater maen nhw’n ei amlygu yw diffyg unrhyw gynnig i osod mesurau arafu traffig ar ben uchaf Rhydypenau Road sydd wedi dod yn fwy agored i yrru nag unrhyw ardal lle cynigir gosod y mesurau."

Mae’r cyllid ar gyfer y Cynllun hwn wedi cael ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gael tuag at gyflwyno nodweddion ychwanegol ar hyd y llwybr hwn.

Os oes gan breswylwyr unrhyw bryderon diogelwch ar y ffordd eraill, gan gynnwys cerbydau’n gyrru’n gyflym ar hyd rhan ogleddol Rhyd-y-Penau Road gellir e-bostio’r rhain i: TransportProjects@Caerdydd.gov.uk neu eu hanfon at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW am ymchwiliad.

Mater – Cyflwyno mesur culhau blaenoriaeth yn lle byrddau arafu.

“Os, ar ôl ystyried y safbwyntiau uchod, mai’r dymuniad yw parhau â’r cynigion hyn, oni fyddai'n well parhau â chynllun culhau ffordd a llif traffig ymroddedig ffafriol tebyg i'r mesurau ar Gwern y Rhuddi Road”

Gallaf gadarnhau ar hyn o bryd bod Cyngor Caerdydd wrthi’n cynnal adolygiad Dinas-Eang o fesurau culhau blaenoriaeth o amgylch y ddinas, a lle bo cyllid ar gael mae’r rhain yn cael eu tynnu a’u disodli am fesurau arafu traffig amgen fel byrddau arafu.

Mae mesurau culhau blaenoriaeth yn golygu bod cerbydau ond yn gorfod arafu neu stopio pan fo cerbydau sy’n teithio i’r cyfeiriad arall yn dod i’w cwrdd. Felly, os nad oes cerbydau yn teithio i’r cyfeiriad arall yna gall cerbydau barhau ar hyd y llwybr hwn heb leihau eu cyflymder. Drwy gyflwyno byrddau arafu bydd yn sicrhau bod cerbydau sy’n teithio i’r ddau gyfeiriad yn gorfod lleihau eu cyflymder p’un a oes cerbydau yn teithio i’r cyfeiriad arall neu beidio.

Mater – Cais am gyfyngiad cyflymder 20mya ar gyfer Rhyd-y-Penau Road

“A fyddai’n bosibl ystyried lleihau’r cyfyngiad cyflymder i 20 milltir yr awr, fel mewn ardaloedd eraill o’r ddinas?”

Mae’r Cyngor wrthi’n rhoi cyfyngiadau cyflymder o 20mya ar waith yng Nghaerdydd. Mae’r rhain yn rhan o strategaeth i newid cyfyngiadau cyflymder. Os bydd arian ar gael, caiff y cynlluniau ardal 20mya eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd, gan ddechrau’n gyntaf yn yr ardaloedd i’r de o’r A48 gan symud yn raddol allan o’r ddinas. Gallaf gadarnhau y bydd Cyncoed yn cael ei ystyried fel rhan o gynllun yn y dyfodol.

Mater – Croesfan Sebra Baralel – Rheolau'r Ffordd Fawr / Sefyllfa Gyfreithiol

"Rydych chi'n siŵr o barhau beth bynnag ond ni allaf ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad at "croesfan baralel" yn Rheolau'r Ffordd Fawr ar-lein. (enw gwirion pam ddim croesfan sebra cerddwyr / beicwyr fel ein bod ni i gyd yn gwybod beth mae'n ei olygu!) Dim ond croesfan Twcan y cyfeirir ato at ddefnydd deuol. Ai dyma beth rydych yn ei gynnig pan rydych yn cyfeirio at "groesfan a reolir newydd" yn eich disgrifiad o'r cynllun?

Bwysicaf oll pa statws cyfreithiol sydd gan eich croesfan baralel (gweler uchod) yn achos damwain a faint o yrwyr sy'n ymwybodol ohono?"

Caiff Rheolau'r Ffordd Fawr ei ddiwygio bob hyn a hyn gan yr Adran Drafnidiaeth, ond mae Croesfannau Paralel yn gwbl gyfreithiol ac yn cael eu cydnabod yn nogfennau'r Adran, fel y canllaw swyddogol ar arwyddion a chynllun priodol yn TSRGD Atodlen 14, gan gynnwys Rhan 1, Adran 18, 21, 25 a Rhan 2 adrannau 31 a 53.
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/362/schedule/14/made>

Mater – A fydd Patrol Croesi Ysgol yn cael ei gyflwyno ar y groesfan newydd

"Rwy'n cymryd na fyddwch yn rhoi swyddog patrol croesi ar y groesfan sebra newydd felly all awdurdodau'r ysgol ofyn i rieni barhau i ddefnyddio'r groesfan bresennol neu bydd hyd yn oed mwy o draffig a cheir yn gorfod stopio mewn 2 groesfan sebra wahanol yn agos at ei gilydd."

Cyfrifoldeb ein Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd a Hyfforddiant yw'r Swyddogion Croesi Ysgol, nid oes ganddynt unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu Swyddog Croesi Ysgol yn y lleoliad hwn. Bydd disgyblion ysgol yn gallu defnyddio'r groesfan sebra newydd hon. Bydd cynnig cyfleusterau croesi diogel a chyfleus yn annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol.

Mater –Cais am Arwydd Rhybudd Adborth Gyrwyr

"A fyddai'n fwy effeithiol gosod y dangosyddion ymwybyddiaeth cyflymder fel yn Cyncoed Road. Gallai hyn amharu llai".

Er bod Arwyddion Rhybudd Adborth Gyrwyr yn atgoffa gyrwyr o'u cyflymder, nid yw'r arwyddion adborth hyn yn gorfodi gyrwyr i leihau eu cyflymder. Rydym yn cael problemau parhaus â sicrhau bod yr arwyddion presennol yn gweithio'n iawn ac mae goblygiadau o ran costau i ymdrin â'r diffygion aml sy'n digwydd. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn gosod arwyddion newydd ar hyn o bryd boed fel rhan o'r cynlluniau arafu traffig neu ar eu pen eu hunain. Felly, pan fydd digon o gyllid ar gael i gyflwyno mesurau arafu traffig fel byrddau arafu, y rhain fydd yr opsiwn a ffefrir lle bo'n ymarferol.

Mater – Parciau / Mater Gatio Lonydd Cefn mewn perthynas â gordyfiant mewn lôn gefn.

"Os oes gennych unrhyw adnoddau i ymestyn ar rywbeth a fyddai o werth i breswylwyr yn Rhydypenau Road uchaf, rwy'n awgrymu y dylai'r Cyngor dacluso'r blerwch y tu ôl i dai 129-151 sydd wedi'i greu gan y cyngor. Yn 2011 ar fenter Jon Maidment adeiladwyd ffens rhyw 10 metr o waliau'r ardd gefn. Am ychydig o flynyddoedd roedd swyddogion y cyngor arfer torri'r gwair ar hyd y llwybr rhwng y waliau a'r ffens. Ond, nid oes unrhyw beth wedi'i wneud yn ystod y pedair blynedd diwethaf ac mae gordyfiant yn broblem yn yr ardal gyfan gyda mieri, ac – yr hyn sy'n peri pryder, helyg a choed eraill sy'n tyfu yn erbyn waliau gardd

gefn preswylwyr. Gan fod gordyfiant yn broblem yn yr ardal gyfan mae'n amhosibl i mi a fy nghymdogion gael mynediad a thacluso'r tir o amgylch ein waliau. Gaf i awgrymu bod Cyngor Dinas Caerdydd yn ailafael yn ei bolisi o glirio'r ardal hon o leiaf unwaith y flwyddyn?"

Gallaf roi gwybod bod y mater a godwyd uchod yn ymwneud â thir sy'n berchen i Adran Parciau'r Cyngor ac nid yw'n ffurfio rhan o'r Brifford Fabwysiedig. Felly byddai'n rhaid i unrhyw faterion neu bryderon gael eu hatgyfeirio at Adran Parciau Cyngor Caerdydd iddyn nhw eu hymchwilio.

Mater – Materion Gorfodi Parcio Sifil

"Rwy'n deall bod plant ysgol blwyddyn 6 yn ceisio ail-addysgu gyrwyr ar barcio cywir ond nid eu job nhw ydy hyn. Lle mae'r swyddogion gorfodi traffig?"

Mae tîm Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor yn rheoli rhaglen "Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd Iau" sy'n ymgysylltu â disgyblion ysgol o ran codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys parcio anghyfreithlon ac anystyriol.

Caiff y cyfyngiadau parcio presennol eu gorfodi'n rheolaidd gan Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor, fodd bynnag dylai unrhyw gais i orfodi cyfyngiadau parcio presennol gael eu hatgyfeirio i'r Swyddogion Gorfodi Sifil a gellir cysylltu â hwy trwy C2C ar 029 2087 2088.

Mater – Costau'r Cynllun

"Faint fydd y mesurau arafu traffig yn costio i'w gosod a'u cynnal."

Gallaf roi gwybod bod £280k wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru tuag at ddarparu'r cynllun cyfan hwn. O ran costau cynnal a chadw, pan fo cynlluniau'n cael eu cyflwyno o amgylch y ddinas caiff unrhyw waith cynnal a chadw ar y nodweddion arafu traffig eu rheoli gan ein Tîm Rheoli Asedau sy'n cynnal arolygon ac sy'n ychwanegu unrhyw waith cynnal a chadw gofynnol at eu rhaglen waith.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD